



Technoleg Glyfar,  
Gwnaethpwyd i Ofalu



Canllaw Cyfeirio Cyflym Orion

[we-cair.com](http://we-cair.com)

# Cynnwys

- Tudalen 3 - Sut Mae'n Gweithio
- Tudalen 4 - Gosod
- Tudalen 5 - Troi Ymlaen/I Ffwrdd
- Tudalen 6 - Rhaglennu'r Rhifau Moddau/Opsiynau
- Tudalen 7 - Moddau/Opsiynau
- Tudalen 8 - Ailadrodd
- Tudalen 9 - Defnyddio Mwy Nag Un Orion
- Tudalen 10 - Ymddygiad Cyffredinol a Gweithredol
- Tudalen 11 - Methiant Prif Gyflenwad



# Orion

## Sut Mae'n Gweithio

Mae'r Orion yn gweithio drwy estynnu pellter gweithio eich dyfeisiau teleofal cydnaws. Gall unedau Orion gyrraedd hyd at 1km mewn amodau llinell welediad uniongyrchol, ond mae'r pellter gweithio mewn amgylchiadau go iawn yn cael ei leihau gan waliau, inswleiddio, cynllun yr adeilad a rhwystrau eraill. Dylid bob amser gynnal prawf safle gan ddefnyddio'r nodwedd 'Walk Test' ar y Notifier i gadarnhau'r pellter gweithio, nodi manau "cysgod signal", a phennu'r lleoliadau gorau.

Mae'r uned yn cael ei phweru drwy soced plwg prif gyflenwad. Mae ganddo hefyd batri, felly bydd yn dal i allu trosglwyddo os bydd toriad mewn pŵer. Pan fydd wedi'i wefru'n llawn, dylai'r batri ddarparu pŵer hyd at 12 awr, yn dibynnu ar ei ddefnydd.



# Orion

## Gosod

- Ar gyfer y gweithrediad gorau, mi ddylai'r y ddau erial bod efo polareiddiad gwahanol (wedi eu setio ar 90 gradd).
- Yn ddelfrydol ddylai gosod yr Orion mewn soced sydd ddim mewn defnydd, â'u osod mewn safle disylw, i ffwrdd o ymyrraeth.



# Orion

Troi Ymlaen/I Ffwrdd

## Troi Ymlaen

I droi ymlaen, plygio'r Orion i'r prif soced, mi fydd yn dod ymlaen yn awtomatig. Ffordd arall o droi ymlaen yw pwysu a dal i lawr y switsh gyda chlip bapur neu offer addas am 10 eiliad tan fydd y LED yn goleuo.

Pan mae'r uned yn troi ymlaen, fydd y LED yn fflachio 4 gwaith, wedi dilyn gan y LED glas yn fflachio i nodi'r modd (e.e. un fflach i fodd 1, dwy fflach am fodd 2 a.y.b.), a'r LED felyn yn fflachio i nodi'r rhif ailadrodd. Efallai y clywir swm hefyd, os eu bod wedi'i alluogi. Mi fydd y LED wyrdd yn fflachio yn araf, i nodi fod yr Orion nawr yn barod i'w ddefnyddio.

## Troi i Ffwrdd

Pwyswch y switsh gyda chlip bapur neu offer addas a'i dal am 5 eiliad tan fydd y LED yn stopio fflachio. Nodwch ni fydd yr Orion yn troi i ffwrdd os mae yna ddigwyddiad derbyniad/trosglwyddiad yn digwydd ar y pryd.



# Orion

## Rhaglennu'r Rhifau Moddau/Opsiynau

Mae'r moddau ac opsiynau wedi eu rhestru ar y dudalen Moddau/Opsiynau.  
Defnyddiwch y dull canlynol i newid pob gosodiad:

- Pwyswch a dal i lawr y switsh am ddau eiliad wedyn rhyddhau.
- Mi fydd y LED felyn yn goleuo, ac mi fydd yr Orion yn mynd i mewn i fodd rhaglennu am gyfnod o 10 eiliad. Yn ystod yr amser yma, tapiwch y switsh yr un nifer o weithiau a'r rhif modd/opsiwn delfrydol, e.e. unwaith am fodd 1, dwywaith am fodd 2 a.y.b. Mi fydd y LED glas yn fflachio bob tro mae'r switsh yn cael eu pwyso.
- Pan fydd wedi darford, mi fydd yr Orion yn ailgychwyn unwaith fydd y cyfnod rhaglennu 10 eiliad wedi dod i ben.
- Pan mae'r Orion yn dod ymlaen, mi fydd y LED glas yn fflachio i gadarnhau'r rhif fodd, wedi eu dilyn efo LED felyn i gadarnhau'r rhif ailadrodd. Mi fydd swm hefyd os mae hwn wedi eu galluogi.



# Orion

## Moddau/Opsiynau

Mae gan yr Orion pedwar fodd, dau opsiwn sain a tri opsiwn ailadrodd.

1. Modd 1 (**Gosodiad Diodyn**). Ailadrodd dwywaith (Defnyddio efo Notifier yn unig).
2. Modd 2. Ailadrodd unwaith (Defnyddio efo Notifier yn unig).
3. Modd 3. Ailadrodd dwywaith - Cynyddrannol (Gellir defnyddio efo Notifier ag uned Teleofal).
4. Modd 4. Ailadrodd dwywaith - Cynyddrannol (Gellir defnyddio efo Notifier ag uned Teleofal).
5. Sain i Ffwrdd.
6. Sain Ymlaen (**Gosodiad Diodyn**).
7. Ailadroddwr 1 (**Gosodiad Diodyn**). Yn ailadrodd dwywaith yn foddau 1 a 3 - ar ôl 2 eiliad a 4 eiliad. Yn ailadrodd unwaith yn foddau 2 a 4 - ar ôl 2 eiliad.
8. Ailadroddwr 2. Yn ailadrodd dwywaith yn foddau 1 a 3 - ar ôl 5 eiliad a 10 eiliad. Yn ailadrodd unwaith yn foddau 2 a 4 - ar ôl 5 eiliad (gweler tudalen 'Defnyddio mwy nag un Orion').
9. Ailadroddwr 3. Yn ailadrodd dwywaith yn foddau 1 a 3 - ar ôl 8 eiliad a 16 eiliad. Yn ailadrodd unwaith yn foddau 2 a 4 - ar ôl 8 eiliad (gweler tudalen 'Defnyddio mwy nag un Orion').



# Orion

## Ailadrodd

- Yn ddiodyn, mi fydd yr Orion yn ailadrodd signal yn dod i mewn dwywaith (sianel 1 ar ôl 2 eiliad a sianel 2 ar ôl 4 eiliad).
- Os dewisir opsiwn 8, mi fydd yr amseroedd yn newid i 5 a 10 eiliad.
- Os dewisir opsiwn 9, mi fydd yr amseroedd yn newid i 8 a 16 eiliad.
- Mae ailadrodd dwywaith yn uchafu pellter gweithio'r Orion gan fod y signal yn cael eu trosglwyddo o'r ddau arial.
- Mi ellir newid hyn i ailadrodd unwaith yn unig drwy newid y modd i unai modd 2 neu 4.



# Orion

## Defnyddio Mwy Nag Un Orion

- Os mae yna dau Orion yn cael eu defnyddio yn yr un gosodiad, mi ddylai un cael ei osod i 'Ailadroddwr 1' a'r llall i 'Ailadroddwr 2'.
- Os bydd trydydd Orion yn cael eu defnyddio, mi ddylai hwn cael eu gosod i 'Ailadroddwr 3'.
- Mi ddylai bob Orion cael eu rhaglenni i Fodd 4; mae'r modd yma yn lleihau'r nifer o signalau sydd yn cael eu creu pan fydd yn defnyddio mwy nag un Orion efo'i gilydd.



# Orion

## Ymddygiad Cyffredinol a Gweithredol

### Ymddygiad Cyffredinol

Pan na fydd yr Orion mewn defnyddiad, yr unig ddangosyddion gweithredol yw'r LED wyrdd, fydd yn fflachio yn araf. Ella mi fydd yn fflachio mewn amser efo'i gilydd, neu ddim, mae hyn yn arferol. Os mae'r Orion yn gweithredu ar bŵer batri, mi fydd y LED wyrdd yn fflachio yn sydyn.

### Ymddygiad Gweithredol

- Pan fydd yr Orion yn derbyn signal can synhwyrdd, mi fydd y LED felyn ar sianel 1 a 2 yn goleuo am amser byr, wedyn fydd y LED glas yn goleuo am amser byr ar adegau wedi'i hamseru, fydd yn amrywio yn dibynnu ar y rhif ailadrodd.
- Mi fydd LED sianel 1 a 2 yn goleuo yn fodd 1 a 3, a sianel 1 yn unig yn fodd 2 a 4.
- Os dewisir opsiwn 5, mi fydd yr Orion yn ddistaw pan mae'r LED glas yn goleuo.
- Os dewisir opsiwn 6, mi fydd yr Orion yn creu sŵn pan mae'r LED glas yn goleuo.



# Orion

## Methiant Prif Gyflenwad

- Deg eiliad ar ôl colli pŵer, mi fydd yr Orion yn wneud sŵn ag yn gyrru signal radio. Mi ellir rhaglennu'r signal radio i Notifier neu uned Teleofalos dymunir, i rybuddio gofalwyr neu ganolfan fonitro fod yr Orion wedi colli'r pŵer.
- Os mae'r modd/rhif ailadrodd yn newid o'r gosodiad diofyn, mi ddylai rhaglennu'r rhain gyntaf.



# Diolch



Technoleg Glyfar,  
Gwnaethpwyd i Ofalu

[www.we-cair.com](http://www.we-cair.com)

01422 399155 | [hello@we-cair.com](mailto:hello@we-cair.com)